

CYFEIRLYFR MODYLAU

TAR CYNRADD LEFELAU 6 a 7

DISGYBLAETH ACADEMAIDD: ADDYSG GYCHWYNNOL ATHRAWON

YR ATHROFA

2018-2019

TUDALEN GYNNWYS

Rhif Tud

CYFLWYNIAD..... 1

MODYLAU 2

CYFLWYNIAD

Mae'r Cyfeiriadur Modylau hwn yn cynnwys yr holl fodylau ar gyfer Lefelau 6 a 7 o fewn y rhaglen TAR Cynradd ym mlwyddyn academiaidd 2018-2019.

Mae'r cyfeiriadur hwn yn mynd gyda'r Llawlyfr Rhaglen Astudio, a fydd yn rhoi manylion y modylau y byddwch yn eu hastudio ar gyfer eich rhaglen eleni yn yr adran 'Rhaglen Astudio'. Gall y cyfeiriadur hwn gynnwys modylau sy'n rhedeg ar raglenni astudio eraill o fewn eich Ysgol/Cyfadrn. Os oes angen cymorth arnoch i adnabod modylau eich rhaglen astudio, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Rhaglen (y mae ei enw a'i fanylion cyswllt wedi'u rhoi yn y Llawlyfr Rhaglen Astudio sy'n mynd gyda'r ddogfen hon), neu Swyddfa'r Gyfadrn berthnasol.

Mae'r Brifysgol wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth mor lawn a chywir â phosibl, ond dylech nodi ei bod yn anochel y bydd rhai mân newidiadau yn digwydd i drefniadaeth y modylau rhwng y cyfnod cynllunio ac amser addysgu'r modylau. Byddwn yn ceisio sicrhau y bydd cyn lleied o newidiadau â phosibl, ac fe gewch ddigon o rybudd o flaen llaw os bydd unrhyw newid. Byddem hefyd yn ddiolchgar pe baech yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau defnyddiol y gallem eu gwneud i'r llawlyfr yn y dyfodol.

MODYLAU

CÔD Y MODWL:	M6X01438C
TEITL:	Egwyddorion Addysgeg: dysgu ac addysgu effeithiol yn y cyd-destun cynradd
DYDDIAD:	15/05/2015
LEFEL:	6
CREDYDAU:	20
CÔD JACS:	X100

AMCAN(ION)

- Arfarnu'n feirniadol y prif ddamcaniaethau sy'n sail i ddatblygiad corfforol, gwybyddol a chymdeithasol plant
- Defnyddio'r wybodaeth ddamcaniaethol hon i gyd-destunau ymarferol yn adfyfyriol, er mwyn cefnogi ac ymestyn dysgu'r plant

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

1. ddeall, syntheseiddio a gwerthuso'r prif ddamcaniaethau sy'n sail i ddysgu, ymddygiad ac asesu yn yr ysgol gynradd
2. adfyfyrio'n feirniadol ar y ffordd y mae damcaniaethau dysgu'n hysbysu gwaith cynllunio a darparu amgylcheddau dysgu ansawdd uchel, gan ddangos dealltwriaeth glir o sut mae damcaniaeth ac arfer yn cydberthyn
3. trefnu gwybodaeth a dysgu trwy ddefnyddio ystod o ffynonellau gwybodaeth a chyflwyno gwaith yn briodol.

CYNNWYS DANGOSOL

Mae'r modwl hwn yn cynnwys themâu bras, sef:

- **Cyflwyniad i ddamcaniaethau ac egwyddorion allweddol.** Beth a wyddwn am ddysgu ac addysgu effeithiol? Beth sy'n gwneud athro rhagorol? Gwerthusiad beirniadol o ymchwil i addysgu effeithiol ac ymyriadau effeithiol. Beth yw ymarferwr adfyfyriol?
- **Damcaniaethau dysgu ar waith:** ystyried effaith ymddygiadaeth, lluniadaeth, damcaniaeth dysgu cymdeithasol a dysgu seiliedig ar yr ymennydd ar arferion ystafell ddosbarth. Pwysigrwydd iaith a deialog mewn dysgu. Adfyfyrdod

beirniadol ar ymchwil i sgiliau cyfathrebu effeithiol, gyda ffocws ar gwestiynu, addysgu sgysiol a meddwl ar y cyd cynaledig.

- **Sylfeini dysgu:** dysgu yn y blynyddoedd cynnar. Ystyried barn newidiol 'plentyndod gydag amser. Gwerthuso rôl chwarae a dysgu gweithgar. Deall y damcaniaethau sy'n ymwneud â dysgu yn y cartref, y teulu a'r gymdeithas ehangach, gan ddadansoddi effaith tlodi ar ddysgu.
- **Dysgu ac ysgolion:** archwilio cwricwlwm cenedlaethol Cymru, safbwyntiau cenedlaethol a rhyngwladol a blaenoriaethau cenedlaethol allweddol. Amrywiaeth, cynhwysiant, llais y dysgwr a dysgu personoledig. Dysgwyr dwyieithog ac amlieithog.
- **Monitro dysgu – asesu a dilyniant.** Cyflwyniad i asesu effeithiol a'r rôl mae'n ei chwarae mewn dysgu ac addysgu ansawdd uchel.
- **Meddwl a dysgu:** nodweddion allweddol meddylwyr effeithiol. Deallusrwydd, metawybyddiaeth a thueddfryd i ddysgu. Rôl hunan-barch, lles a meddylfryd. Datblygu arfer adfyfyriol ac ymarferwyr adfyfyriol.
- **Mannau a lleoedd dysgu:** dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Gwerth addysg awyr agored. Gwerthuso manteision a heriau dysgu mewn cyd-destunau fel Ysgolion Coedwig, parciau, amgueddfeydd ac orielau.
- **Dysgwyr yr unfed ganrif ar hugain:** beth a olygwn wrth 'ddysgwyr bywyd go iawn'? Pa sgiliau a gwybodaeth ydyn ni wir yn ceisio'u darparu i ddysgwyr? Arfer seiliedig ar dystiolaeth, dinasyddiaeth fyd-eang a mythau addysg.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

Bydd darlithoedd yn cyflwyno'r myfyrwyr i gysyniadau, egwyddorion ac arferion dysgu ac addysgu effeithiol. Bydd tiwtorialau a seminarau yn cyflwyno enghreifftiau ymarferol ac yn caniatáu ar gyfer trafod materion yn fanwl. Bydd hyn yn cefnogi cymhwyso, trafod a gwerthuso'n feirniadol ddamcaniaethau ac egwyddorion. Bydd lleoliadau wedi'u trefnu a'u saernïo'n cynnig cyfleoedd i drafod ac adfyfyrio ar arsylwi a phrofiad uniongyrchol o ddysgu ac addysgu. Bydd hyn yn cynorthwyo'r myfyrwyr i nodi nodweddion arfer effeithiol, gan ddod â damcaniaethau'n fyw.

Dosberthir yr addysgu fel a ganlyn i gyflwyno'r modwl:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	50	25
Dysgu annibynnol	125	62.5
Dysgu drwy leoliadau	25	12.5
CYFANSWM	200	100%

ASESU

Elfen Asesu 1 – 100%

Asesiad ysgrifenedig (cywerth 5,000 o eiriau)

Enghraifft: Traethawd â phoster cysylltiedig

‘Disgrifiwch ddigwyddiad dysgu a wnaeth ddigwydd yn ystod eich cyfnod ar leoliad. Adfyfiriwch ar beth ddigwyddodd, gan gysylltu’r digwyddiadau â damcaniaethau dysgu ac addysgu. Argymhellwch sut y gallech wella eich arfer eich hun ar sail hwn a chynhyrchwch boster i ddangos sut y byddech yn datblygu elfennau amgylchedd dysgu effeithiol.’

Crynodeb o’r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith Cwrs	100%
Ymarferol	
CYFANSWM	100%

LLYFRYDDIAETH

Hanfodol

Alexander, R. (2010) *Towards Dialogic Teaching* (4th edition), Cambridge: Dialogos.
MacBlain, S. (2014) *How Children Learn* London: SAGE

Argymhellir

Alexander, R. (ed.) (2010) *Children, Their World, Their Education: The Report of the Cambridge Primary Review*. London: Routledge.
Claxton, G. (2002) *Building Learning Power: Helping Young People Become Better Learners*. Bristol: TLO Ltd.
Dweck, C. (2007) *Mindset – the new psychology of success*. New York: Ballantine Books.
Grigg, R. (2010) *Becoming an Outstanding Primary School Teacher*, Harlow: Pearson. (2nd edition in press)
Hattie, J. (2012) *Visible Learning for Teachers* Abingdon: Routledge.
Hattie, J. and Yates, G. (2014) *Visible Learning and the Science of How We Learn* Abingdon: Routledge.
Mason, J. (2001) *Researching your Own Classroom Practice: from noticing to reflection*, London: Routledge.
McBer, H. (2000) *Research into Teacher Effectiveness*, London: DfEE.
McGuinness, C. (1999) *From Thinking Skills to Thinking Classrooms*, Retrieved from: http://www.sustainablethinkingclassrooms.qub.ac.uk/DFEE_Brief_115.pdf (30.9.11)
Schmidt, S. (2013) *The Developing Child*. London: Routledge
Schon, D. (1983) *The Reflective Practitioner*, New York: Basic Books.

Cefndir

Bee, H. (2010) *The developing child*. 12th edition. London: Allyn and Bacon

Black, P. et al. (2003) *Assessment for Learning: putting it into practice*, Maidenhead: Open University Press.

Cunningham, H. (2006) *The Invention of Childhood*, London: BBC Books.

DCELLS (APADGOS) (2007) *Gwrando ar Ddysgwyr/Listening to Learners*, Cardiff: DCELLS.

DCELLS. (2008) *Observing Children*, Cardiff: DCELLS.

DCELLS. (2008) *Play and Active Learning - Overview for 3-7 year olds*, Cardiff: DCELLS.

DCELLS. (2008) *Learning and Teaching Pedagogy*, Cardiff: DCELLS.

Mercer, N. & Hodgkinson, S. (2011) *Exploring Talk in School*, London: SAGE.

Mercer, N. & Littleton, K. (2011) *Dialogue and the Development of Children's Thinking*, London: Routledge.

Mercer, N. (2000) *Words and Minds: How we use language to think together*, London: Routledge.

Cylchgronau

British Educational Journal <http://www.bera.ac.uk/publications/BERJ>

Early Years: An international research journal

<http://www.tandfonline.com/toc/ceye20/current#.UyDrVV6N6hM>

Journal of Teacher Education <http://jte.sagepub.com/>

Welsh Journal of Education <http://www.ingentaconnect.com/content/uwp/wjoe>

Gwefannau

TLRP - <http://www.tlrp.org/pub/index.html>

BBC - <http://www.bbc.co.uk/radio4/history/childhood/>

Centre for Real World Learning

<http://www.winchester.ac.uk/aboutus/lifelonglearning/CentreforRealWorldLearning/Pages/CentreforRealWorldLearning.aspx>

Estyn - www.estyn.gov.uk

What is a vignette? <http://sru.soc.surrey.ac.uk/SRU25.html>

CÔD Y MODWL: M6X02149C
TEITL: Dysgu ac Addysgu yn yr Ysgol Gynradd
DYDDIAD: 18/05/2016

LEFEL: 6
CREDYDAU: 20

COD JACS: X100

AMCAN(ION)

- Darparu trosolwg o gwmpas, cymeriad a diben gofynion y cwricwlwm cynradd yng Nghymru.
- Galluogi myfyrwyr i synthesu gwybodaeth pwnc ac addysgeg er mwyn cynhyrchu dysgu ac addysgu effeithiol yn yr ysgol gynradd.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- ddeall safbwyntiau a dulliau gwahanol at, a damcaniaethau am addysgu llythrennedd a rhifedd yn yr ysgol gynradd.
- ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r Meysydd Dysgu hynny a geir yn y pynciau Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.
- ddadansoddi'n feirniadol, dehongli a gwerthuso ystod o strategaethau addysgu a sgiliau addysgeg er mwyn hyrwyddo dysgu effeithiol ar draws y cwricwlwm cynradd.

CYNNWYS DANGOSOL

- Gwnaiff y modwl hwn gyflwyno i'r myfyrwyr y cwricwlwm cynradd yng Nghymru (gan gynnwys y Fframwaith Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn ogystal â sgiliau ehangach).
- Gwnaiff myfyrwyr archwilio a datblygu dealltwriaeth o gyd-destun unigryw'r system addysg yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys sesiynau sy'n ystyried argymhellion diweddar yng ngolau adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm; cynllunio ar gyfer y Gymraeg fel ail iaith; ADCDF a'r Cwricwlwm Cymreig.
- Caiff gofynion y cwricwlwm ac addysgeg briodol ar gyfer meysydd dysgu, pynciau a sgiliau ar draws yr ysgol gynradd eu hystyried. Caiff y berthynas rhwng dealltwriaeth yr athro ac addysgeg ei hystyried. Bydd iaith a mathemateg a chaffael a chymhwysio sgiliau llythrennedd a rhifedd yn

ganolog i'r modwl hwn. Caiff datblygiad a chymhwysiad cymhwysedd digidol a sgiliau meddwl hefyd eu hystyried.

- Drwy gyfres o sesiynau 'Gwyddoniaeth, Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd' caiff natur gwyddoniaeth ac ymholiad gwyddonol eu harchwilio a chaiff dealltwriaeth o'r addysgeg sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â chamsyniadau gwyddonol plant ei datblygu.
- Bydd paratoi cyfnod-seiliedig penodol ar gyfer addysgu pob grŵp oedran (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2) cyn cynnal y Profiad Addysgu Proffesiynol. Bydd y sesiynau cyfnod-seiliedig penodol hyn yn archwilio natur benodol gofynion y cwricwlwm a'r addysgeg sy'n gysylltiedig â phob cyfnod.
- Caiff natur trawsnewidiadau e.e. o'r cartref / cyn ysgol i ysgol, o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2, ac o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 eu hystyried.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

Bydd darlithoedd yn cyflwyno'r myfyrwyr i'r cysyniadau, yr egwyddorion a'r arferion. Cynhelir nifer bach o ddarlithoedd ar gyfer y modwl hwn, yn bennaf ar ddechrau'r rhaglen. Bydd tiwtorialau a seminarau yn cyflwyno enghreifftiau ymarferol a gaiff eu defnyddio i gefnogi cymhwyso, trafod a gwerthuso'n feirniadol gofynion y cwricwlwm ac addysgeg.

Dyrennir yr addysgu fel a ganlyn i gyflwyno'r modwl:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	100	50%
Dysgu annibynnol	50	25%
Dysgu drwy leoliadau	50	25%
CYFANSWM	200	100%

ASESU

Elfen Asesu 1 - 100%

Gwaith Cwrs (5,000 o eiriau)

Enghraifft

Portffolio: Aseiniad ysgrifenedig, gan adfyfrio ar rôl dealltwriaeth pwnc yr athro wrth addysgu yn yr ysgol gynradd, gyda thystiolaeth gefnogol wedi'i seilio ar dasgau ystafell ddosbarth-seiliedig.

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith Cwrs	100%
Ymarferol	
CYFANSWM	100%

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ADC)

Ydy'r modwl yn cyfrannu at ADC?	Ydy
	~~Nac ydy~~
Os ydy, rhwch fanylion cryno (dim mwy na 100 o eiriau): Bydd cynnwys y modwl yn gwneud hi'n eglur i fyfyrwyr sut mae ADCDF yn tynnu ar sgiliau, gwybodaeth a gwerthoedd sy'n gysylltiedig â llawer o bynciau'r cwricwlwm. Mae cyfarwyddyd ADCDF hefyd yn darparu enghreifftiau perthnasol i'w defnyddio gan bob maes pwnc. Mae ADCDF yn cyfrannu at ddatblygiad cyffredinol dysgwyr ac yn eu paratoi ar gyfer yr heriau hynny gwnânt eu hwynebu yn yr 21^{ain} Ganrif. Gwnaiff myfyrwyr ddangos sut, oherwydd dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau proffesiynol, yn enwedig o ran datblygu arfer ac ymgysylltu yn yr ystafell ddosbarth, gallant ddeall, gwerthuso a mabwysiadu gwerthoedd cynaliadwy.	

LLYFRYDDIAETH

Hanfodol

Donaldson, G (2015) *Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales* Cardiff: Welsh Government

Rowland, T., Huckstep, P. and Thwaites, A. (2003) *The Knowledge Quartet* in Williams, J. (Ed) *Proceedings of the British Society for Research into Learning Mathematics*, Vol.23. No.3.

Shulman, L. S. (1987) Knowledge and teaching: Foundations of the new reform *Harvard Educational Review*, 57(1): pp. 1-22.

Cwricwlwm Llywodraeth Cynulliad Cymru
<http://learning.gov.wales/resources/improvementareas/curriculum/programmes-of-study/>

Argymhellir

Allen, J. et al (2012), *Primary ICT: Knowledge, Understanding and Practice*, London: Learning Matters.

Biddulph, J. (2002) *The Guided Reading Approach: Theory and Research*, Learning Media Limited

Estyn (2015) *The Annual Report 2014-15* Cardiff: Estyn

Graham, J. and Kelly, A. (eds 2003) *Writing Under Control: Teaching Reading in the Primary School*, Abingdon: David Fulton

Grigg, R. and Hughes, S.V. (2012), *Teaching Primary Humanities*, Harlow: Pearson.

Grigg, R. and Lewis, H. (2016) *A to Z of learning outside the classroom* London: Bloomsbury

Haylock, D. (2014) *Mathematics Explained for Primary Teachers*, London: SAGE.

Johnson, R. and Watson, J. (2007) *Teaching Synthetic Phonics*, London: Learning Matters

Pound, L. and Lee, C. (2013) *Teaching Mathematics Creatively*, London: Routledge.

Shulman, L. (1986) Those who understand: Knowledge growth in teaching, *Educational Researcher* Vol.15. No. 2: pp. 4-14.

Smith, P. and Dawes, L. (2014) *Subject Teaching in Primary Education*, London: SAGE

Waugh, D., Warner, C. and Waugh, R. (2013) *Teaching Grammar, Punctuation and Spelling in Primary Schools*, London: SAGE

Cefndir

Dean, J. (2002) *Thinking Skills in Primary History*, Nuffield History Project.
Kerry, T. (2011) *Cross-Curricular Teaching in the Primary School: Planning and Facilitating Imaginative Lessons*, Abingdon: Routledge.
O'Hara, L. and O'Hara, M. (2001) *Teaching History 3-11*, London: Continuum
Palmer, J. (2004) *Geography in the Early Years*, London: Routledge.
Plowman, L. and Stephen, C. (2006), *Supporting learning with ICT in pre-school settings*, Learning and teaching Research Briefing 15, ar gael yn: <http://www.tlrp.org/>
Rowley, C. and Cooper, H. (2009) *Cross-Curricular Approaches to Learning and Teaching*, London: Sage.
Waugh, D., Neaum, S. and Waugh, R. (2013) *Children's Literature in Primary Schools*, London: SAGE

Cylchgronau

I gynnwys:
Journal of Curriculum and Pedagogy
Teach Primary and other professional publications
Wales Journal of Education

Gwefannau

Estyn www.estyn.gov.uk
Ystod eang o adnoddau ar gael yn: www.learningwales.gov.uk
National Literacy Trust ar gael yn: www.literacytrust.org.uk
National Council of Teachers of Mathematics: www.nctm.org
United Kingdom Literacy Association ar gael yn: www.ukla.org
Welsh Assembly Government <http://learning.gov.wales>

CÔD Y MODWL:	M6X00973C
TEITL:	Profiadau Addysgu Proffesiynol
DYDDIAD:	19/05/2014
LEFEL:	6
CREDYDAU:	20
CÔD JACS:	X100

AMCANION:

- Darparu profiad addysgu priodol i fyfyrwyr yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2 er mwyn cyflawni safonau SAC.
- Hyrwyddo datblygiad proffesiynol darpar athrawon mewn cyd-destun ymholiad adfyfyriol beirniadol.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

1. ddangos annibyniaeth a chyfrifoldeb proffesiynol priodol o fewn ystod o gyd-destunau addysgol;
2. gwerthuso'n feirniadol effaith eu haddysgu ar gynnydd pob dysgwr;
3. tystio gwybodaeth sicr o gynllunio, addysgu ac asesu ar draws pob maes dysgu a phynciau cyfnod allweddol dau.

CYNNWYS DANGOSOL

Bydd cymorth bugeiliol i fyfyrwyr yn cael ei ddarparu gan diwtoriaid yn y Brifysgol a mentoriaid yn yr ysgol ar hyd y modwl. Yn ystod y flwyddyn academiaidd, bydd 24 wythnos yn cael eu treulio mewn lleoliadau addysgol, gyda chyfle i fyfyrwyr gymryd rhan mewn profiadau unigol a grŵp ar brofiadau addysgu tymor byr a hir (yn y ddau gyfnod). Bydd cyfleoedd hefyd i fyfyrwyr archwilio'r ddarpariaeth addysgol sydd ar gael mewn ystod o leoliadau, gan gynnwys amgueddfeydd, cyfleusterau awyr agored ac atyniadau i ymwelwyr.

Mewnbwn y brifysgol:

Tymor 1:

- Egwyddorion diogelu (gan gynnwys polisi'r Ganolfan, arferion cenedlaethol a lleol)
- Cyflwyniad i safonau SAC

- Cyflwyniad i'r Portffolio Datblygiad Proffesiynol (i'w roi at ei gilydd gan yr hyfforddai yn ystod profiadau yn yr ysgol a'r brifysgol)
- Disgwyliadau am ddysgu ac addysgu ansawdd uchel e.e. cynllunio, asesu a rheoli ymddygiad.

Tymor 2:

- Gwneud cynnydd trwy adolygu a gosod targedau personol a phroffesiynol ar gyfer gwelliant pellach yn ystod PAP2
- PDP a pharatoi ar gyfer gyrfaedd: tystio a chefnogi datblygiad proffesiynol; ceisio cymorth; cymryd cyngor a gweithredu'n briodol arno
- Profiad o drawsnewid
- Mynediad i yrfa: paratoi'r Proffil Mynediad Gyrfa
- Rolau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr athro
- Lles ar gyfer yr ANG
- Brwydro yn erbyn hiliaeth/ mynd i'r afael â stereoteipiau personol
- Cofrestriad CynACC

Rhaglen seminar yn yr ysgol:

Profiadau Addysgu Proffesiynol Cychwynnol:

- Profiadau grŵp ac unigol: gweithio gyda grwpiau a dosbarthiadau cyfan
- Profiad micro-addysgu: cynllunio, paratoi a gwerthuso'u hepisodau addysgu eu hunain a rhai pobl eraill

Profiad Addysgu Proffesiynol 1:

- Cynllunio
- Rheoli Ymddygiad
- Asesiad
- Cefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd y disgyblion

Profiad Addysgu Proffesiynol 2:

- Rheoli ymddygiad, gan gynnwys gweithio gyda rhieni, unigolion eraill ac asiantaethau o'r tu allan yn yr ysgol
- Asesiad (data ysgol gyfan)
- Atebolrwydd a Chreu Adroddiadau i Rieni
- Defnyddio'r Cwricwlwm Cymreig a chefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg yn yr ysgol.
- Asesiad risg ac ymweliadau addysgol
- Creu adroddiadau i rieni

STRATEGAETH DDYSGU AC ADDYSGU

Er mwyn ufuddhau i Lywodraeth Cymru, mae'r myfyrwyr yn ymgymryd â thri bloc o brofiadau wedi'u hasesu yn yr ysgol sy'n gwneud cyfanswm o 24 wythnos. Bydd y rhain yn cael eu hasesu a'u monitro gan diwtoriaid a mentoriaid yn yr ysgol a bydd barnau ffurfiannol a chrynodol yn cael eu gwneud yn erbyn safonau SAC. Yn ystod astudiaeth yn y brifysgol, cyflwynir y modwl hwn trwy ddarlithoedd carfan gyfan, nifer fach o ddosbarthiadau ac amser tiwtorial unigol.

Dosberthir yr addysgu fel a ganlyn i gyflwyno'r modwl:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	35	5%
Dysgu annibynnol	35	5%
Dysgu drwy leoliadau	120 niwrnod = 720 awr*	90%
CYFANSWM	720 awr (gofyniad LIC)	100%

ASESU

Crynodeb o'r Asesiad - 100%

Asesiad ffurfiannol a chrynodol yn erbyn set gyda ffocws o safonau craidd a nodwyd o safonau SAC: fe'i hysbyswyd trwy arsylwi sesiwn, craffu ffeiliau a deialog broffesiynol a gynhaliwyd gan fentoriaid yn yr ysgol a thiwtoriaid yn y brifysgol. Mae myfyrwyr yn dangos eu cyflawniadau yn y Proffiliau Datblygiad Proffesiynol. Bydd myfyrwyr yn dangos eu cyflawniad o safonau SAC ar y lefel briodol i ennill Statws Athro Cymwysedig.

Math o weithgaredd	Canran
Ymarferol (a thystiolaeth sy'n cyd-fynd ag ef)	100%
CYFANSWM	100%

LLYFRYDDIAETH

Hanfodol

Curriculum documentation: Foundation Phase, KS2 & Literacy and Numeracy Framework

Grigg, R. (2010) *Becoming an Outstanding Primary School Teacher*, Harlow: Pearson.

SWWCTE Professional Teaching Experience Guidance for each specific placement.

Argymhellir

Mason, J. (2010) *Researching your Own Classroom Practice: from noticing to reflection*, London: Routledge.

McBer, H. (2000) *Research into Teacher Effectiveness*, London: DfEE.

Cefndir

Black, P et al. (2003) *Assessment for Learning: putting it into practice*, Maidenhead: Open University Press.

DCELLS (APADGOS) (2007) *Gwrando ar Ddysgwyr/Listening to Learners*, Cardiff: DCELLS.

DCELLS. (2008) *Observing Children*, Cardiff: DCELLS.

Gwefannau

Estyn – www.estyn.gov.uk

Learning Wales – learningwales.gov.uk

SWWCTE – swwcte.uwtsd.ac.uk

TES – www.tes.co.uk

Teachers Media - www.teachersmedia.co.uk

CÔD Y MODWL: ECPP7001C
TEITL: Yr Athro Ymholgar
DYDDIAD: 05/07/2017

LEFEL: 7
CREDYDAU: 30

COD JACS: X100

AMCAN(ION)

- Datblygu dealltwriaeth feirniadol myfyrwyr o ymchwil ym myd addysg a phwysigrwydd arfer wedi'i seilio ar dystiolaeth.
- Galluogi myfyrwyr i gynllunio, ymgymryd ag, a gwerthuso ymholiad cydweithredol ystafell ddosbarth-seiliedig ac adfyfyrio'n feirniadol arno er mwyn gwella eu haddysgu eu hunain a deilliannau'r dysgwyr.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- ddylunio a chymhwyso methodolegau ymchwil priodol gan ddangos dealltwriaeth feirniadol o natur ymchwil addysgol.
- gynnal ymholiad ymchwil ar raddfa fechan er mwyn gwella agwedd o arfer personol a deilliannau dysgwyr, gan ddangos peth gwreiddioldeb a thrylwyrdd wrth gymhwyso sgiliau ymchwil priodol.
- werthuso yn feirniadol dystiolaeth ymchwil gan ddangos beirniadaeth gadarn o ddata cymhleth er mwyn cefnogi penderfyniadau addysgol.
- adfyfyrio yn feirniadol ar bwysigrwydd gweithdrefnau moesegol wrth gynnal ymchwil ystafell ddosbarth-seiliedig a gweithredu'r gweithdrefnau yn briodol.

CYNNWYS DANGOSOL

- Cyflwyniad i ymholiad gan athro fel agwedd o ymchwil addysgol.
- Rôl yr athro wrth werthuso addysgu da ar sail dystiolaeth.
- Yr athro adfyfyriol ac ymatblyg.
- Yr ymarferydd moesegol: gwerthuso rôl moeseg mewn ymchwil addysgol a chymhwyso moeseg briodol at ymholiad personol.
- Meddwl yn feirniadol am, a dadansoddi dystiolaeth ymchwil.
- Canolbwyntio ar ddulliau athrawon sy'n dysgu oddi wrth athrawon e.e. troeon dysgu, trafodaethau bwrdd hir, arsylliadau ac astudiaethau gwersi.
- Dealltwriaeth o'r ffactorau hynny sy'n siapio'r ffordd y mae athrawon yn parhau i ddatblygu'n broffesiynol.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

Bydd darlithoedd yn cyflwyno'r myfyrwyr i gysyniadau, egwyddorion a'r arferion addysgu adfyfyriol drwy ddefnyddio cyfuniad o ymholi a gwerthuso arfer ystafell ddosbarth. Gwnaiff seminarau gyflwyno enghreifftiau ymarferol a gaiff eu defnyddio i gefnogi cymhwysiad, trafodaeth a gwerthusiad beirniadol o'r technegau hynny a ddysgir. Bydd goruchwyllo'r prosiect yn cefnogi'r ymholiad ymchwil ymarferol.

Dyrennir yr addysgu fel a ganlyn i gyflwyno'r modwl:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	48	16%
Dysgu annibynnol	222	74%
Dysgu drwy leoliadau	30	10%
CYFANSWM	300	100%

ASESU

Elfen Asesu 1 - 100%

Aseiniad ysgrifenedig wedi'i seilio ar brosiect ymchwil ar raddfa fechan e.e. astudiaeth wers (6000 o eiriau).

Ffurflen foeseg amgaeedig wedi ei chymeradwyo (cyfwerth â 1500 o eiriau)

Enghraifft: Traethawd beirniadol a dadansoddol wedi ei ysgrifennu yn arddull erthygl cylchgrawn sy'n cynnwys: crynodeb, trosolwg ar y llenyddiaeth; cyfiawnhad methodoleg yr ymchwiliad; adroddiad a gwerthusiad o'r ymchwiliad, a gwerthusiad adfyfyriol o'r ymchwiliad.

Ffurflen foeseg wedi ei chymeradwyo.

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith Cwrs	100%
Ymarferol	
CYFANSWM	100%

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ADC)

Ydy'r modwl yn cyfrannu at ADC?	Ydy
Os ydy, rhwch fanylion cryno (dim mwy na 100 o eiriau):	
Mae ymgysylltu ag ymchwil sy'n seiliedig ar yr ystafell ddosbarth ac effaith y math hwn o arfer tystiolaeth-seiliedig ar ddatblygiad personol yn cyd-fynd ag argymhellion a gafodd eu gwneud ynglŷn â dyfodol llwyddiannus addysg (Donaldson, 2015; Furlong, 2015).	

LLYFRYDDIAETH

Hanfodol

Bell, J. (2010). *Doing Your Research Project: A guide for first time researchers in Education and Social Science* (2nd ed.) Buckingham: OUP.

BERA (2011). Revised Ethical Guidelines for Educational Research. British Educational Research Association. UK. (<http://www.bera.ac.uk/publications>)

Donaldson, G. (2015) *Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales* Cardiff: Welsh Government

Dudley, P. (2014). *Lesson Study: Professional learning for our time*. London: Routledge.

Darllenydd Modwl: dylid ei gadw'n gyfredol drwy adolygu erthyglau cylchgronau a phenodau enghreifftiol.

Argymhellir

Baumfield, V., Hall, E., and Wall, K. (2012) *Action Research: Learning through practitioner enquiry* (2nd ed.) London: SAGE

Denscombe, M. (2010). *The Good Research Guide for small-scale social research projects* (4th ed.) Buckingham: OUP.

Grigg, R. (2015). *Becoming an Outstanding Primary School Teacher* (2nd ed.). London: Routledge.

Hansen, A. (Ed) (2012) *Reflective Learning and Teaching in Primary Schools*. London: SAGE

Hattie, J. (2011). *Visible Learning: Maximizing Impact on Learning*. London: Routledge.

Lewis, C. C., & Hurd, J. (2011). *Lesson Study Step by Step: How teacher learner communities improve instruction*. London: Heinemann Educational Books.

Norwich, B., & Jones, J. (Eds.). (2014). *Lesson Study: Making a difference to teaching pupils with learning difficulties*. London: Bloomsbury Academic.

Pollard, A. (2008) *Reflective Teaching: Evidence informed classroom* (3rd ed.) London: Continuum.

Cylchgronau

British Journal of Educational Research
Educational Research
Professional Development in Education
Wales Journal of Education
Cyfeirir at erthyglau penodol yn ystod y sesiynau.

Gwefannau

<http://www.rtweb.info/>
<http://www.bera.ac.uk/publications>
<http://www.esrc.ac.uk/>
<http://www.jeanmcniff.com/ar-booklet.asp>
<http://lessonstudy.co.uk/>
<http://www.nfer.ac.uk/index.cfm>
<http://www.socialscienceforschools.org.uk/Methodologies/methodologies.aspx>
<http://www.cyfanfyd.org.uk/resources/pdf/ESDGCcommonunderstanding%28eng%29.pdf>

COD Y MODWL: M7X02153C
TEITL: Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion
DYDDIAD: 18/05/2016

LEFEL: 7
CREDYDAU: 30

COD JACS: X100

AMCAN(ION)

- Datblygu dealltwriaeth y myfyriwr o ran sut mae athrawon a rhanddeiliaid yn defnyddio tystiolaeth i hysbysu cynllunio ar gyfer yr ysgol gyfan a chynnydd disgyblion unigol, a dangos ymwybyddiaeth feirniadol o fanteision a chyfyngiadau dichonol y fath dystiolaeth.
- Dangos ymwybyddiaeth feirniadol o ymchwil cyfredol ac arfer addysgol o ran asesu a monitro, a chymhwyso'r ddealltwriaeth hon yn adfyfyriol mewn cyd-destun ystafell ddosbarth er mwyn sicrhau y caiff anghenion pob plentyn eu bodloni.
- Meithrin sgiliau meddwl beirniadol, gweithio ar y cyd ac ymchwilio annibynnol y myfyrwyr eu hunain drwy ddefnyddio dulliau fel Dysgu problemau-seiliedig.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- adfyfyrio'n feirniadol ar gyfrifoldebau proffesiynol athrawon wrth weithio'n agos gyda rhieni, llywodraethwyr, awdurdodau lleol ac asiantaethau sy'n cefnogi ysgolion a'r gymuned ehangach.
- synthesu a dadansoddi data perfformio yn fanwl gywir er mwyn hysbysu gwneud penderfyniadau, gan ddangos dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gofynion cenedlaethol hynny sy'n ymwneud â chynnydd o fewn y cwricwla statudol ac anstatudol.
- adnabod, cymhwyso a gwerthuso strategaethau asesu ffurfiannol a chrynodol priodol ac adfyfyrio'n feirniadol ar effeithiolrwydd strategaethau dewisol o ran eu harfer ystafell ddosbarth eu hunain.
- ddangos eu cyfraniad effeithiol at weithio mewn timau o fewn cyd-destun dysgu problemau-seiliedig, a gwerthuso eu cyfraniad eu hunain at ddeilliannau'r tîm.
- adfyfyrio'n feirniadol ar eu dysgu eu hunain gan dynnu ar ddamcaniaethau perthnasol a phrofiad personol.

CYNNWYS DANGOSOL

- Cyflwyniad i nodweddion dysgu problem-seiliedig a'i werth dichonol i athrawon; gweithio â sefyllfaoedd, cyfrifoldebau a disgwyliadau.
- Amgylcheddau dysgu effeithiol mewn ysgolion cynradd – gweledigaeth, gwerthoedd ac ethos.
- Datblygiad ysgol - Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, Cymunedau Dysgu Proffesiynol a rôl athrawon ac arweinwyr o ran monitro safonau.
- Sefydlu cyfathrebu â'r gymuned ehangach a rhieni / gofalmwyr, gan gyflwyno gwybodaeth i gynulleidfaoedd gwahanol.
- Rhwystrau dichonol i ddysgu gan gynnwys effeithiau lles personol a chymdeithasol; rhyw, adnabod grwpiau o blant sy'n agored i niwed a'r heriau sy'n wynebu e.e. ysgolion bychain, ysgolion gwledig, ac ysgolion amlddiwylliannol. Cysylltiadau ag ADCDF e.e. cyfoeth a thlodi, diwylliant a hunaniaeth.
- Cyflwyno strategaethau asesu ysgol gyfan, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a setiau Data Craidd. Dehongli data asesu.
- Arferion gwahaniaethu, asesu ffurfiannol ar lafar ac ysgrifenedig: e.e. egwyddorion gwahaniaethu, deialog asesu; canmol ac annog; cymhelliant a chyfeiriad meddwl; marcio cau'r bwlch, marcio targedau; perchnogaeth a rennir, gwaith uwch-lefelu; asesiadau diagnostig. Egwyddorion ac arferion adborth effeithiol.
- Strategaethau addysgegau ac ymyriadau penodol gan gynnwys rhaglenni dal i fyny, neilltuo grwpiau bychain; cefnogaeth un i un a chynnwys y gymuned ehangach. Ystyried effaith methiant llythrennedd a rhifedd mewn perthynas â ffactorau economaidd-gymdeithasol e.e. cyflogaeth i'r dyfodol.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

Mae'r modwl hwn yn defnyddio dull cyfunol, gan gynnwys prif ddarlithoedd, seminarau a'r cyfle i weithio drwy sefyllfaoedd mewn grwpiau bychain gan ddefnyddio dull dysgu problem-seiliedig. Bydd tiwtorialau a seminarau yn cyflwyno enghreifftiau ymarferol a gaiff eu defnyddio er mwyn cefnogi'r cymhwysiad, y drafodaeth a gwerthuso'n feirniadol y technegau a ddysgir. Caiff setiau data craidd, proffiliau disgyblion a dadansoddi arfer personol yn yr ystafell ddosbarth (a gasglwyd yn ystod Profiad Addysgu Proffesiynol) eu defnyddio i ddatblygu dealltwriaeth a chymhwysiad.

Dyrennir yr addysgu fel a ganlyn i gyflwyno'r modwl:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	80	27%
Dysgu annibynnol	200	66%
Dysgu drwy leoliadau	20	7%
CYFANSWM	300	100%

ASESU

Elfen Asesu 1 – 70%

Asesiad Ysgrifenedig (4,500 o eiriau)

Enghraifft:

Dadansoddiad agos a gwerthusiad o ddysgu gan ddefnyddio data a ddewisir yn briodol, ac sydd, o ganlyniad, yn cyfiawnhau'r camau addysgu nesaf ar gyfer dysgwr unigol.

Elfen Asesu 2 – 30%

Cyflwyniad Grŵp (20 munud) ynghyd â phapur adfyfyriol, beirniadol, unigol cysylltiedig (cyfwerth â 3,000 o eiriau)

Enghraifft:

Fel Uwch Dîm Arweinyddiaeth, cyflwynwch eich cynllun Datblygu Ysgol gerbron Corff Llywodraethol Ysgol Yr Enfys, gan amlinellu'r safonau cyfredol a'r blaenoriaethau allweddol y dylid eu datblygu. Gan ystyried y gynulleidfa, sicrhewch ei fod yn cael ei gyflwyno'n addas. Cyfiawnhewch y dulliau y byddwch yn eu defnyddio wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol gan ddefnyddio llenyddiaeth ehangach a bas tystiolaeth ymchwil, a dangos ymwybyddiaeth o unrhyw gyfyngiadau a heriau dichonol.

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith Cwrs	70%
Ymarferol	30%
CYFANSWM	100%

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ADC)

Ydy'r modwl yn cyfrannu at ADC?	Ydy
	Nac ydy
Os ydy, rhwch fanylion cryno (dim mwy na 100 o eiriau): Gwnaiff y modwl fynd i'r afael ag elfennau ADCDF (ceir hefyd fel llinyn o'r Fframwaith ABCh) sy'n pwysleisio pwysigrwydd agweddau a gwerthoedd personol, hunan-barch a pharch tuag at eraill, ynghyd â thestunau ehangach megis tlodi a chyfoeth.	

LLYFRYDDIAETH

Hanfodol

- Arshad, R., Wrigley, T. and Pratt, L. (eds.) (2012) *Social Justice Re-examined* London: Institute of Education Press.
- Alexander, R. (ed) (2010) *Children, Their World, Their Education: The Report of the Cambridge Primary Review*. London: Routledge.
- Black, P. and Wiliam, D. (1998) *Inside the Black Box*, London: Kings College London.
- Claxton, G. (2002) *Building Learning Power: Helping young People Become Better Learners*. Bristol: TLO Ltd
- Governors Wales (2011) *All Wales Core Data Set Key Stage 1 & 2: Guidance Notes*, Cardiff: Governors Wales
- http://www.governorswales.org.uk/media/files/documents/2012-09-20/KS1-KS2_Guidance_Notes_2011.pdf
- Higgins, S., Katsipatakis, M., Kokotsaki, D., Coleman, R., Major, L.E., & Coe, R. (2014). *The Sutton Trust - Education Endowment Foundation Teaching and Learning Toolkit*. London: Education Endowment Foundation.
- Persistent Poverty and Children's Cognitive Development: Evidence from the UK Millennium Cohort Study available at: <http://learning.wales.gov.uk/resources/persistent-poverty-cognitive-development/?lang=en>
- Child poverty Strategy for Wales 2010 available at: <http://learning.wales.gov.uk/resources/povertystategy2010/?lang=en>

Argymhellir

- Clark, S. (2011) *Formative Assessment in Action: Weaving the Elements Together*, Oxon: Hodder Murray.
- Graham, J. and Kelly, A. (2008, third edition) *Reading Under Control: Teaching Reading in the Primary School*, Oxon: Routledge
- Hutchinson, N. (2003) *Intervening Early, Promoting Positive Behaviour in Young Children*, London: David Fulton
- Rodger, R. (2011) *Planning an Appropriate Curriculum for the Under Fives*, London: David Fulton
- Savin-Baden, M., and Major, C.H. (2004) *Foundations of Problem-based Learning*, Maidenhead: OUP.

Cefndir

- Beare, H. et al (1989) *Creating an Excellent School*, London: Routledge.
- Black, P., Harrison, C., Lee, C., Marshall, B. & William, D. (2003), *Assessment for Learning: Putting it into practice*, Oxford University Press, Oxford, United Kingdom.
- Sammons, P. et al (2007) *Summary Report: Influences on Children's Attainment and Progress in Key Stage 2: Cognitive Outcomes in Year 5: Effective Pre-school and Primary Education 3-11 Project (EPPE 3-11)*, Research Report RR828, London: DfES
- Whalley, M (2007) *Involving Parents in their Children's Learning*, London: Paul Chapman Publishing.

Cylchgronau

Assessment for Learning: Putting it into Practice available at:

<http://oro.open.ac.uk/24157/>

British Educational Journal <http://www.bera.ac.uk/publications/BERJ>

Journal of Teacher Education <http://jte.sagepub.com/>

Wales Journal of Education www.wales.ac.uk/en/AboutUs/WCEE/Wales-Journal-of-Education

Gwefannau

Learning Wales: learning.wales.gov.uk

Literacy Interventions: www.interventionsforliteracy.org.uk/

Removing barriers to Literacy: <http://www.ofsted.gov.uk/resources/removing-barriers-literacy>

How to develop thinking and assessment.

<http://learning.wales.gov.uk/resources/how-to-develop-thinking-and-assessment/?lang=en>

CÔD Y MODWL: ECPP6001C
TEITL: Yr Athro Ymholgar
DYDDIAD: 05/07/2017

LEFEL: 6
CREDYDAU: 30

COD JACS: X100

AMCAN(ION)

- Datblygu dealltwriaeth feirniadol myfyrwyr o ymchwil ym myd addysg a phwysigrwydd arfer wedi'i seilio ar dystiolaeth.
- Galluogi myfyrwyr i gynllunio, ymgymryd â, a gwerthuso ymholiad cydweithredol ystafell ddosbarth-seiliedig ac adfyfyrio yn feirniadol arno er mwyn gwella eu haddysgu a deilliannau'r dysgwyr.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- ddewis, ystyried a gwerthuso'n feirniadol tystiolaeth ymchwil er mwyn cefnogi ymholiad proffesiynol.
- gynnal ymholiad ymchwil ar raddfa fechan o weithgaredd proffesiynol sy'n ymwneud ag agwedd o addysgeg bersonol.
- ystyried goblygiadau gwella eu harfer eu hunain mewn perthynas â deilliannau'r dysgwyr.
- gymhwyso methodolegau ymchwil priodol o fewn yr ymholiad hwn, gan ddangos ymwybyddiaeth feirniadol o natur ymchwil addysgol.
- ddeall pwysigrwydd gweithdrefnau moesegol o fewn ymchwil ystafell ddosbarth-seiliedig, a gweithredu'r gweithdrefnau hyn yn briodol.

CYNNWYS DANGOSOL

Mae'r modwl hwn yn cynnwys y themâu bras canlynol:

- Cyflwyniad i ymholi gan athro fel agwedd o ymchwil addysgol.
- Rôl yr athro o ran gwerthuso addysgu da ar sail tystiolaeth.
- Yr athro adfyfyriol ac ymatblyg.
- Yr ymarferydd moesegol – ystyriaeth o foesege yn yr ystafell ddosbarth ac mewn ymchwil.
- Meddwl yn feirniadol a dadansoddi tystiolaeth ymchwil.
- Canolbwyntio ar ddulliau athrawon yn dysgu oddi wrth athrawon e.e. troeon dysgu, trafodaethau bwrdd hir, arsylliadau ac astudiaethau gwersi.
- Dealltwriaeth o'r ffactorau hynny sy'n siapia'r ffordd y mae athrawon yn parhau i ddatblygu'n broffesiynol.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

Bydd darlithoedd yn cyflwyno'r myfyrwyr i gysyniadau, egwyddorion ac arferion addysgu adfyfyriol drwy ddefnyddio cyfuniad o ymholi gan athrawon a gwerthuso arfer ystafell ddosbarth. Gwnaiff seminarau gyflwyno enghreifftiau ymarferol a gaiff eu defnyddio i gefnogir cymhwysiad, trafodaeth a gwerthusiad beirniadol o'r

technegau hynny a ddysgir. Gwnaiff goruchwyllo'r prosiect gefnogi'r ymholiad ymchwil ymarferol.

Dyrennir yr addysgu fel a ganlyn i gyflwyno'r modwl:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	48	16%
Dysgu annibynnol	222	74%
Dysgu drwy leoliadau	30	10%
CYFANSWM	300	100%

ASESU

Elfen Asesu 1 – 100%

Aseiniad ysgrifenedig wedi'i seilio ar brosiect ymchwil ar raddfa fechan e.e. astudiaeth wers (6000 o eiriau).

Ffurflen foeseg amgaeedig wedi ei chymeradwyo (cyfwerth â 1500 o eiriau)

Enghraifft: Traethawd beirniadol a dadansoddol wedi ei ysgrifennu yn arddull erthygl cylchgrawn sy'n cynnwys: crynodeb, trosolwg ar y llenyddiaeth; cyfiawnhad methodoleg yr ymchwiliad; adroddiad a gwerthusiad o'r ymchwiliad, a gwerthusiad adfyfyriol o'r ymchwiliad.
Ffurflen foeseg wedi ei chymeradwyo.

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith Cwrs	100%
Ymarferol	
CYFANSWM	100%

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ADC)

Ydy'r modwl yn cyfrannu at ADC?	Ydy
Os ydy, rhwch fanylion cryno (dim mwy na 100 o eiriau):	
Mae ymgysylltu ag ymchwil sy'n seiliedig ar yr ystafell ddosbarth ac effaith y math hwn o arfer tystiolaeth-seiliedig ar ddatblygiad personol yn cyd-fynd ag argymhellion a gafodd eu gwneud ynglŷn â dyfodol llwyddiannus addysg (Donaldson, 2015; Furlong, 2015).	

LLYFRYDDIAETH

Hanfodol

Bell, J. (2010). *Doing Your Research Project: A guide for first time researchers in Education and Social Science* (2nd ed.) Buckingham: OUP.
BERA (2011). Revised Ethical Guidelines for Educational Research. British Educational Research Association. UK. (<http://www.bera.ac.uk/publications>)
Donaldson, G. (2015) *Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales* Cardiff: Welsh Government

Dudley, P. (2014). *Lesson Study: Professional learning for our time*. London: Routledge.
Darllenydd Modwl: dylid ei gadw'n gyfredol drwy adolygu erthyglau cylchgronau a phenodau enghreifftiol.

Argymhellir

Baumfield, V., Hall, E. and Wall, K. (2012) *Action Research: Learning through practitioner enquiry* (2nd ed.) London: SAGE
Denscombe, M. (2010). *The Good Research Guide for small-scale social research projects* (4th ed.) Buckingham: OUP.
Grigg, R. (2015). *Becoming an Outstanding Primary School Teacher* (2nd ed.). London: Routledge.
Hansen, A. (Ed) (2012) *Reflective Learning and Teaching in Primary Schools*. London: SAGE
Hattie, J. (2011). *Visible Learning: Maximizing Impact on Learning*. London: Routledge.
Lewis, C. C., & Hurd, J. (2011). *Lesson Study Step by Step: How teacher learner communities improve instruction*. London: Heinemann Educational Books.
Norwich, B., & Jones, J. (Eds.). (2014). *Lesson Study: Making a difference to teaching pupils with learning difficulties*. London: Bloomsbury Academic.
Pollard, A. (2008) *Reflective Teaching: Evidence informed classroom* (3rd ed.) London: Continuum.

Cylchgronau

British Journal of Educational Research
Educational Research
Professional Development in Education
Wales Journal of Education
Cyfeirir at erthyglau penodol yn ystod y sesiynau.

Gwefannau

<http://www.rtweb.info/>
<http://www.bera.ac.uk/publications>
<http://www.esrc.ac.uk/>
<http://www.jeanmcniff.com/ar-booklet.asp>
<http://lessonstudy.co.uk/>
<http://www.nfer.ac.uk/index.cfm>
<http://www.socialscienceforschools.org.uk/Methodologies/methodologies.aspx>
<http://www.cyfanfyd.org.uk/resources/pdf/ESDGCcommonunderstanding%28eng%29.pdf>

CÔD Y MODWL: M6X02151C
TEITL: Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion
DYDDIAD: 18/05/2016

LEFEL: 6
CREDYDAU: 30

COD JACS: X100

AMCAN(ION)

- Datblygu dealltwriaeth y myfyriwr o ran sut mae athrawon a rhanddeiliaid yn defnyddio tystiolaeth i hysbysu cynllunio ar gyfer yr ysgol gyfan a chynnydd disgyblion unigol.
- Datblygu gallu'r myfyriwr i gymhwyso dealltwriaeth feirniadol o ymchwil cyfredol ac arfer addysgol o ran asesu a monitro er mwyn sicrhau y caiff anghenion pob plentyn eu bodloni.
- Meithrin sgiliau meddwl beirniadol, gweithio ar y cyd ac ymchwilio annibynnol y myfyriwr drwy ddefnyddio dulliau fel Dysgu problemau-seiliedig.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- esbonio cyfrifoldebau proffesiynol athrawon wrth weithio'n agos gyda rhieni, llywodraethwyr, awdurdodau lleol ac asiantaethau sy'n cefnogi ysgolion a'r gymuned ehangach.
- ddadansoddi data perfformio yn fanwl gywir er mwyn hysbysu gwneud penderfyniadau, gan ddangos dealltwriaeth o'r gofynion cenedlaethol hynny sy'n ymwneud â chynnydd o fewn y cwricwla statudol ac anstatudol.
- adnabod strategaethau asesu ffurfiannol a chrynodol priodol ac adfyfrio'n feirniadol ar eu heffeithiolrwydd o ran arfer ystafell ddosbarth.
- ddangos eu cyfraniad effeithiol at weithio mewn timau o fewn cyd-destun dysgu problemau-seiliedig, ac
- adfyfrio'n feirniadol ar eu dysgu eu hunain gan dynnu ar ddamcaniaethau perthnasol a phrofiad personol.

CYNNWYS DANGOSOL

- Cyflwyniad i nodweddion dysgu problem-seiliedig a'i werth dichonol i athrawon; gweithio â sefyllfaoedd, cyfrifoldebau a disgwyliadau.

- Amgylcheddau dysgu effeithiol mewn ysgolion cynradd – gweledigaeth, gwerthoedd ac ethos.
- Datblygiad ysgol - Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, Cymunedau Dysgu Proffesiynol a rôl athrawon ac arweinwyr o ran monitro safonau.
- Sefydlu cyfathrebu â'r gymuned ehangach a rhieni / gofalwyr, gan gyflwyno gwybodaeth i gynulleidfaoedd gwahanol.
- Rhwystrau dichonol i ddysgu gan gynnwys effeithiau lles personol a chymdeithasol; rhyw, adnabod grwpiau o blant sy'n agored i niwed a'r heriau sy'n wynebu e.e. ysgolion bychain, ysgolion gwledig, ac ysgolion amlddiwylliannol. Cysylltiadau ag ADCDF e.e. cyfoeth a thlodi, diwylliant a hunaniaeth.
- Cyflwyno strategaethau asesu ysgol gyfan, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a setiau Data Craidd. Dehongli data asesu crynodol.
- Arferion gwahaniaethu, asesu ffurfiannol ar lafar ac ysgrifenedig: e.e. egwyddorion gwahaniaethu, deialog asesu; canmol ac annog; cymhelliant a chyfeiriad meddwl; marcio cau'r bwlch, marcio targedau; perchnogaeth a rennir, gwaith uwch-lefelu; asesiadau diagnostig. Egwyddorion ac arferion adborth effeithiol.
- Strategaethau addysgegau ac ymyriadau penodol gan gynnwys rhaglenni dal i fyny, neilltuo grwpiau bychain; cefnogaeth un i un a chynnwys y gymuned ehangach. Ystyried effaith methiant llythrennedd a rhifedd mewn perthynas â ffactorau economaidd-gymdeithasol e.e. cyflogaeth i'r dyfodol.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

Mae'r modwl hwn yn defnyddio dull cyfunol, gan gynnwys prif ddarlithoedd, seminarau a'r cyfle i weithio drwy sefyllfaoedd mewn grwpiau bychain gan ddefnyddio dull dysgu problem-seiliedig. Bydd tiwtorialau a seminarau yn cyflwyno enghreifftiau ymarferol a gaiff eu defnyddio er mwyn cefnogi'r cymhwysiad, y drafodaeth a gwerthuso'n feirniadol y technegau a ddysgir. Caiff setiau data craidd, proffiliau disgyblion a dadansoddi arfer personol yn yr ystafell ddosbarth (a gasglwyd yn ystod Profiad Addysgu Proffesiynol) eu defnyddio i ddatblygu dealltwriaeth a chymhwysiad.

Dyrennir yr addysgu fel a ganlyn i gyflwyno'r modwl:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	80	27%
Dysgu annibynnol	200	66%
Dysgu drwy leoliadau	20	7%
CYFANSWM	300	100%

ASESU

Elfen Asesu 1 – 70%

Asesiad Ysgrifenedig (4,500 o eiriau)

Enghraifft:

Dadansoddiad agos a gwerthusiad o ddysgu plentyn gan adnabod y camau addysgu nesaf ar gyfer y plentyn hwnnw.

Elfen Asesu 2 – 30%

Cyflwyniad Grŵp (20 munud) ynghyd â phapur adfyfyriol unigol cysylltiedig (cyfwerth â 3,000 o eiriau).

Enghraifft:

Fel Uwch Dîm Arweinyddiaeth, cyflwynwch eich cynllun Datblygu Ysgol gerbron Corff Llywodraethol Ysgol Yr Enfys, gan amlinellu'r safonau cyfredol a'r blaenoriaethau allweddol y dylid eu datblygu. Cyfiawnhewch y dulliau y byddwch yn eu defnyddio wrth fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn gan ddefnyddio llenyddiaeth ehangach a'r bas tystiolaeth ymchwil.

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith Cwrs	70%
Ymarferol	30%
CYFANSWM	100%

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ADC)

Ydy'r modwl yn cyfrannu at ADC?	Ydy
	Nac ydy
Os ydy, rhwch fanylion cryno (dim mwy na 100 o eiriau): Gwnaiff y modwl fynd i'r afael ag elfennau ADCDF (ceir hefyd fel llinyn yn y Fframwaith ABCh) sy'n pwysleisio pwysigrwydd agweddau a gwerthoedd personol, hunan-barch a pharch tuag at eraill, ynghyd â thestunau ehangach megis tlodi, cyfoeth a chynaliadwyedd. Caiff y cyrchnodau lles a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf) eu hystyried o fewn y modwl.	

LLYFRYDDIAETH

Hanfodol

- Arshad, R., Wrigley, T. and Pratt, L. (eds.) (2012) *Social Justice Re-examined* London: Institute of Education Press.
- Alexander, R. (ed) (2010) *Children, Their World, Their Education: The Report of the Cambridge Primary Review*. London: Routledge.
- Black, P. and Wiliam, D. (1998) *Inside the Black Box*, London: Kings College London.
- Claxton, G. (2002) *Building Learning Power: Helping young People Become Better Learners*. Bristol: TLO Ltd
- Governors Wales (2011) *All Wales Core Data Set Key Stage 1 & 2: Guidance Notes*, Cardiff: Governors Wales
- http://www.governorswales.org.uk/media/files/documents/2012-09-20/KS1-KS2_Guidance_Notes_2011.pdf
- Higgins, S., Katsipatakis, M., Kokotsaki, D., Coleman, R., Major, L.E., & Coe, R. (2014). *The Sutton Trust-Education Endowment Foundation Teaching and Learning Toolkit*. London: Education Endowment Foundation.
- Persistent Poverty and Children's Cognitive Development: Evidence from the UK Millennium Cohort Study available at:
<http://learning.wales.gov.uk/resources/persistent-poverty-cognitive-development/?lang=en>
- Child poverty Strategy for Wales 2010 available at:
<http://learning.wales.gov.uk/resources/povertystrategy2010/?lang=en>

Argymhellir

- Dowling, M. (2009) *Young Children's personal and emotional development* London: SAGE
- Clark, S. (2008) *Formative Assessment in Action: Weaving the Elements Together* London: Hodder Arnold
- Graham, J. and Kelly, A. (2007, third edition) *Reading Under Control: Teaching Reading in the Primary School* London: Routledge
- Hutchinson, N. (2003) *Intervening Early, Promoting Positive Behaviour in Young Children*, London: David Fulton
- Robinson, M. (2007) *Child development and Behaviour* Buckingham: Open University Press
- Rodger, R. (2011) *Planning an Appropriate Curriculum for the Under Fives* London: David Fulton
- Savin-Baden, M., and Major, C.H. (2004) *Foundations of Problem-based Learning*, Maidenhead: OUP.

Cefndir

- Beare, H. et al (1989) *Creating an Excellent School*, London: Routledge.
- Black, P., Harrison, C., Lee, C., Marshall, B. & Wiliam, D. (2003), *Assessment for Learning: Putting it into practice*, Oxford University Press, Oxford, United Kingdom.
- Sammons, P. et al (2007) *Summary Report: Influences on Children's Attainment and Progress in Key Stage 2: Cognitive Outcomes in Year 5: Effective Pre-school and Primary Education 3-11 Project (EPPE 3-11)*, Research Report RR828, London: DfES

Whalley, M (2007) *Involving Parents in their Children's Learning*, London: Paul Chapman Publishing.

Cylchgronau

Assessment for Learning: Putting it into Practice available at:

<http://oro.open.ac.uk/24157/>

British Educational Journal <http://www.bera.ac.uk/publications/BERJ>

Journal of Teacher Education <http://jte.sagepub.com/>

Wales Journal of Education www.wales.ac.uk/en/AboutUs/WCEE/Wales-Journal-of-Education

Gwefannau

Estyn www.estyn.gov.uk

Learning Wales: learning.wales.gov.uk

Literacy Interventions: www.interventionsforliteracy.org.uk/

Removing barriers to Literacy: <http://www.ofsted.gov.uk/resources/removing-barriers-literacy>

How to develop thinking and assessment.

<http://learning.wales.gov.uk/resources/how-to-develop-thinking-and-assessment/?lang=en>